GWYBODAETH I **RIENI** A **DISGYBLION**

Gwasanaeth
Cerdd Ysgolion
Gwynedd a Môn

Beth yw'r Gwasanaeth Cerdd?

Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn sy'n darparu gwersi offerynnol a gwersi canu mewn ysgolion ar hyd a lled y ddwy sir. Rydym yn hyrwyddo ac annog gweithgaredd cerddorol ymysg plant a phobl ifanc yr ardal.

Gyda thîm o tua 50 o diwtoriaid proffesiynol sy'n teithio o un ysgol i'r llall, rydym wedi bod yn darparu gwersi cerdd i blant a phobl ifanc ers dros 20 mlynedd. Rydym yn ymfalchïo yn safon uchel ein gwasanaeth a llwyddiant ein disgyblion, gyda nifer yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn grwpiau ac ensemblau cenedlaethol.

Mae'r gwasanaeth i bawb – waeth beth yw eich safon, o ddechreuwyr llwyr, i'r rhai sydd yn fwy profiadol ac wedi cael gwersi yn barod.

EIN NOD YW MEITHRIN TALENT A MWYNHAD O GERDDORIAETH

Manylion Cyswllt

Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn
01286 685 283/ 289
www.cerdd.com
post@cerdd.com

Twitter @CerddYsgolion
Facebook/ Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn

RHIF ELUSEN COFRESTREDIG 1097614

Sut mae'r Gwasanaeth Cerdd yn gweithio?

Rydym yn cydweithio gydag ysgolion i ddarparu gwersi cerdd i blant a phobl ifanc. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb mewn trefnu gwersi cysylltwch gyda'r ysgol a bydd yr athro sy'n gyfrifol am gerddoriaeth yn gwneud y trefniadau gyda ni yn y Gwasanaeth Cerdd Ysgolion.

Does dim angen dawn gerddorol amlwg a does dim oed penodol i ddechrau dysgu chwaith. Yr unig beth sydd ei angen yw brwdfrydedd!

Mae gwersi yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a bydd yr ysgol yn trefnu amserlen gyda'r tiwtoriaid cerdd. Mae 30 o wersi yn cael eu darparu mewn blwyddyn.

Yr ysgol sy'n penderfynu ar y ffi y byddwch yn ei dalu – ond mae costau gwersi cerdd gan y Gwasanaeth Cerdd Ysgolion yn llawer iawn yn rhatach na gwersi preifat y tu allan i'r ysgol. Byddwch yn talu yn uniongyrchol i'r ysgol.

Pa offerynnau sydd ar gael?

Gallwn ddarparu gwersi ar gyfer bron pob offeryn cerddorfaol a seindorfol – gan gynnwys offerynnau pres a chwyth, llinynnol, taro a thelyn, heb anghofio gwersi piano a chanu. Mae rhestr lawn ar ein gwefan.

Benthyg offerynnau – am ddim

Mae offerynnau cerdd yn gallu bod yn ddrud – ac weithiau mae hyn yn ddigon i wneud i rywun ail feddwl am gymryd gwersi. Trwy ddysgu chwarae offeryn gyda'r Gwasanaeth Cerdd Ysgolion nid oes rhaid i chi fynd i'r gost o brynu offeryn o'r cychwyn.

Os nad oes gennych fynediad at offeryn eich hunan, neu rydych am roi cynnig arni cyn prynu gallwn ni fel gwasanaetha roi benthyg i chi am hyd at ddwy flynedd am ddim. Holwch yr ysgol neu eich tiwtor cerdd am fwy o wybodaeth.

Pump rheswm i ddysgu offeryn cerdd

Mae ymchwil yn dangos bod llawer o fanteision o ddysgu sut i chwarae offeryn cerddorol - dyma rai...

1. **Gwella cyrhaeddiad mewn pynciau academaidd eraill**
2. **Helpu i leihau ac atal straen**
3. **Cynyddu cylch o ffrindiau a sgiliau cymdeithasu**
4. **Codi hyder a datblygu gallu creadigol**
5. **Cynyddu sgiliau rheoli amser a disgyblaeth**

Ac yn bwysicach na hyn i gyd – **mae'n hwyl**!

Sut i gychwyn arni?

Trafodwch yn yr ysgol gyda'ch athro cerdd neu bennaeth blwyddyn.

Cysylltwch â ni yn uniongyrchol.

Peidiwch ag oedi a cholli'r cyfle!

Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn

post@cerdd.com
01286 685 283/ 289